

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER.

WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING: 25.09.20

Dechreuaf y Cylchlythyr eto'r wythnos yma trwy ddiolch i chi rieni am fod mor gydwethredol gyda ni fel ysgol yn ystod y cyfnod anghymharol hwn. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr, a gwn y gellir dibynnu ar hynny eto i'r dyfodol.

I begin this Newsletter again this week by thanking you parents for being so co-operative with us a school during these unprecedented times. Your support is greatly appreciated, and I know that we can depend on this again into the future.

DISGYBLION Y MEITHRIN – NURSERY PUPILS.

Mor braf fu cael croesawu y disgyblion Meithrin atom yn ystod yr wythnos hon a chyda balchder, gallwn ddweud eu bod yn ymgartrefu yn dda iawn ac yn ymgyfarwyddo gyda threfn yr ysgol yn wych. Pob dymuniad da iddynt oll wrth gychwyn ar eu gyrfa addysgol yma yn Ysgol Glanrafon.

It was lovely to welcome all the Nursery pupils during this week, and we can say, with pride, that they have settled extremely well and are becoming accustomed really well with the school's procedures. All the very best to them all as they start on their educational career here at Ysgol Glanrafon.

BAGIAU/FFEILIAU DARLLEN – READING BAGS/FILES.

Fe'ch hatgoffir i sicrhau fod y plant yn dod â'r ffeil/bag darllen yn ôl i'r ysgol ar **ddydd Llun**, i ganiatau 72 awr cyn iddynt ddod â nhw adref eto ar **ddydd Iau**.

Fel y nodwyd yn y Cylchlythyr diwethaf, ni fyddwn yn cofnodi yn y Cofnod Darllen yn ystod yr hanner tymor hwn.

*You are reminded to ensure that the children bring their reading bag/file back to school on a **Monday**, to allow 72 hours before they bring them home on a **Thursday** again.*

As was noted in the last Newsletter, we will not be recording in the Reading Record during this half term.

DILLAD ADDYSG GORFFOROL – PHYSICAL EDUCATION KIT.

Gyda'r tywydd yn oeri erbyn hyn, gofynnir i'r plant ddod â dillad cynnes efo nhw ar y diwrnod a ddynodwyd ar gyfer Addysg Gorfforol. Y diwrnodau i'ch hatgoffa eto yw:

Llun/Monday – Blwyddyn/Years 1 & 2

Mawrth/Tuesday – Blwyddyn/Years 3 & 4

Iau/Thursday – Meithrin a Derbyn/Nursery & Reception

Gwener/Friday – Bl/Yrs 5 & 6

With the weather getting colder now, the children are asked to come to school in warm clothes on their Physical Education days. As a reminder, the days are shown above.

ESGIDIAU – SHOES.

Os yw'n bosib o gwbl, da o beth fyddai i'r plant sy'n methu cau carrai eu hesgidiau i wisgo pâr sy'n cau gyda Velcro – er mwyn hwyluso'r broses i bawb.

Gan y byddwn yn defnyddio'r cae i alluogi'r disgyblion i chwarae arno yn ystod yr amseroedd cinio am gyfnod cyn hired ag sy'n ymarferol, da o beth fyddai i'r disgyblion hŷn wisgo esgidiau sy'n dal dŵr os yw'n bosib.

If it's at all possible, it would be a good idea for those children who cannot tie their shoe laces to wear a pair that close with a velcro fastening – in order to make the process easier for everyone.

As we will be using the field to enable pupils to play on it during lunch times for as long as is practical, it would be great if the older children could wear waterproof shoes if at all possible.

AMSER SNAPYN Y BORE – MORNING SNACK TIME.

Yn dilyn y Canllawiau a nodwyd gan y Cynulliad yn y gorffennol, fe'ch hatgoffir mai ffrwythau ffres yn unig y mae'r holl ddisgyblion yn eu bwyta ar amseroedd egwyl y bore. Mae'n cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen ond gofynnir i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 (Bl. 3-6) ddod â'u ffrwythau eu hunain o adref os y dymunant hynny, i'w bwyta yn ystod amser egwyl y bore.

Following the Guidelines given to us in the past by the Assembly, we remind you that it is fresh fruit only that all the pupils eat at morning break times. The snack is prepared for the Foundation Phase pupils, but Key Stage 2 pupils can bring their own fruit with them from home if they so wish, during the morning break times.

FFURFLEN IMIWNEIDDIO RHAG Y FFLIW – FLU IMMUNISATION FORM –

PWYSIG – IMORTANT.

Os oes unrhyw ddisgybl yn y Derbyn i fyny at Flwyddyn 6 sydd heb ddychwelyd y Ffurflen Ganiatad, a fyddoch cystal â gwneud hynny erbyn **dydd Llun, Medi 28ain. yn ddi-ffael os gwelwch yn dda**– os na fydd ffurflen wedi dod i law erbyn y diwrnod hwn NI FYDD y disgyblion hynny yn cael eu himiwneiddio ar y diwrnod penodedig (22.10.20)

*If there are any pupils in the Reception – Year 6 who have not returned the Consent Form, would you kindly do so by **Monday, September 28th. without fail please** – if no form has been handed in by this date, those pupils WILL NOT be immunised on the set day (22.10.20)*

